

Papur briffio – Gwella'r ddealltwriaeth o raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol

Gorffennaf 2017



Cyflwyniad

Mae ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol a'i effaith ar ddiodefwyr a goroeswyr wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae achosion proffil uchel wedi tynnu mwy o sylw cyhoeddus a sylw gwleidyddol, yn ogystal â newid arferion. Mae ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth wedi gwella, ond mae gormod o bethau sy'n anhysbys o hyd yng nghyswllt cam-drin plant a phobl ifanc yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr. Mae bylchau a gwendidau yn y data sylfaenol: parhad ac amllder y cam-drin; cyd-destunau a lleoliadau'r achosion o gam-drin; a gwybodaeth broffil sylfaenol am y diodefwyr a'r troseddwy. Mae mesur y math hwn o gam-drin yn heriol, ond mae'n rhaid i ni wella yn hynny o beth os ydym ni am fynd i'r afael â'r broblem mewn modd mwy effeithiol.

Mae'r mater hwn wrth galon diben y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol. Y cam cyntaf yn y gwaith hir dymor hwn yw dadansoddi'r hyn rydyn ni'n ei wybod a'r hyn nad ydyn ni'n ei wybod ar hyn o bryd o astudiaethau o nifer yr achosion ac o ddata gweinyddol¹. Mae adroddiad cwmpasu wedi cael ei gynhyrchu mewn partneriaeth â Phrifysgol Metropolitan Llundain, ac mae'n seiliedig ar ddau weithdy arbenigol. Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi'r prif bwyntiau ac yn nodi ein camau nesaf yn y gwaith o sicrhau data gwell a chymharol.

Yr hyn rydym yn ei wybod...

Daw'r canfyddiadau canlynol o'r sylfaen dystiolaeth bresennol:

...am ddiodefwyr a goroeswyr

- Mae'r astudiaethau o nifer yr achosion yng Nghymru a Lloegr yn awgrymu bod tua 15% o ferched a 5% o fechgyn yn profi rhyw fath o gam-drin rhywiol cyn eu bod yn 16 oed.
- Mae'r dulliau a defnyddir a'r nifer o gwestiynau a ofynnir yn effeithio ar yr amcangyfrifon; ar ben uchaf y raddfa mae amcangyfrifon cenedlaethol yn cyrraedd 30% ar gyfer genethod a 23% ar gyfer bechgyn.
- Mae merched a menywod ifanc yn ffurfio cyfran llawer uwch o'r rheini sydd wedi'u nodi fel diodefwyr cam-drin neu gam-fanteisio rhywiol, er ei bod yn amlwg bod nifer fawr o fechgyn hefyd yn dioddef o gamdriniaeth.
- Mae'r cyfraddau ar gyfer cam-drin treiddiol dro ar ôl tro yn llawer is, ond eu bod yn anos eu cyfrifo. Mae hyn yn fwy cyffredin ymysg merched a menywod ifanc nag ymysg bechgyn a dynion ifanc.
- Nid yw'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dweud wrth unrhyw un ar yr adeg maent yn cael eu cam-drin, ac mae llawer yn disgwyl nes eu bod yn oedolion.

...am y rheini sy'n cam-drin a throseddu

- Mae'r troseddau mwyaf difrifol a'r rhai ailadroddus yn fwy tebygol o gael eu cyflawni gan bersonau hysbys. Mae aelodau o'r teulu yn fwy cyffredin ar gyfer genethod a merched ifanc a ffigurau o awdurdod yn fwy cyffredin ar gyfer bechgyn a dynion ifanc.

¹ Mae astudiaethau o nifer yr achosion yn arolygu hapsamplau o'r boblogaeth ehangach, a gwybodaeth rheoli achos ar achosion sy'n dod i sylw asiantaethau yw data gweinyddol i bob pwrpas.

- Dynion yw'r rhan helaethaf o'r troseddwy.
- Mae'r delweddau o gam-drin plant sy'n cael eu canfod yn cynyddu o ran nifer, ac mae cynnydd yn yr erlyniadau llwyddiannus.
- Mae tua chwarter y troseddau cam-drin plant yn rhywiol sydd wedi'u harchwilio gan yr heddlu wedi arwain at gyhuddiadau neu wysiadau, ac mae tua thri chwarter o'r erlyniadau troseddol sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol yn arwain at euogfarn.
- Mae cyfraddau gadael drwy'r system cyfiawnder troseddol yn amrywio yn ôl troseddau: mae cyfraddau cyhuddiadau ac euogfarnau yn uwch ar gyfer delweddau troseddol, hudo rhywiol a cham-drin plant drwy gamfanteisio arnynt yn rhywiol.
- Mae cam-drin plant yn rhywiol a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein yn gyd-destun newydd ac mae'n cynhyrchu ffurfiau newydd o gam-drin sydd yn anodd eu holrhain yn gywir.

...Am y data

- Mae'r fethodoleg a ddefnyddir mewn astudiaethau o nifer yr achosion yn effeithio ar lefelau'r adroddiadau a gynhyrchir: er enghraifft, nifer y cwestiynau a ofynnir ac a ofynnir am gam-drin gan gyfoedion.
- Mae patrymau cymhleth a chyfnewidiol ar gyfer adnabod ac adrodd, ac mae nifer y plant sydd ar gynlluniau amddiffyn rhag cam-drin rhywiol yn lleihau yn y tymor hir, tra bod nifer y troseddau sydd wedi'u cofnodi gan yr heddlu wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf:
 - Mae cofnodion yr heddlu ar gyfer troseddau cam-drin rhywiol wedi treblu rhwng 2004/5 a 2015/16².
 - Mae nifer y plant sydd ar gynlluniau amddiffyn rhag cam-drin rhywiol yn Lloegr wedi gostwng o 6,400 i 2,970 rhwng 1993/4 a 2015/16, ac o 331 i 120 yng Nghymru. Dydyn ni ddim yn gwybod beth yw graddfa'r achosion hysbys o gam-drin plant yn rhywiol a gafodd eu trin gan wasanaethau plant. Y rheswm am hyn yw mai dim ond un prif bryder y mae modd ei gofnodi am blentyn, ac am nad oes modd newid y cofnodion os daw cam-drin rhywiol i'r amlwg yn ddiweddarach yn y broses.
- Mae llawer o amrywiadau rhanbarthol sylweddol ar draws y data gweinyddol:
 - Roedd 12 o ardaloedd yr heddlu wedi cofnodi llai na thri o achosion o gam-drin plant yn rhywiol i bob 1,000 plentyn yn 2015/16, tra roedd dau wedi cofnodi 15 neu fwy.
 - Roedd pump o awdurdodau lleol nad oedden nhw wedi dod o hyd i unrhyw blant a oedd angen eu hamddiffyn rhag cam-drin rhywiol yn 2015/16, tra roedd 12 o awdurdodau lleol wedi cofnodi chwech neu fwy o blant ym mhob 10,000.
- Mae'r heddlu'n canfod mwy a mwy o achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac mae plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg yn cael eu riportio gan wasanaethau plant. Fodd bynnag, nid yw'n bosib gwahaniaethu rhwng plant a phobl ifanc sy'n dioddef o gamfanteisio rhywiol a'r rheini sydd sy'n wynebu risg o hynny.
- Mae llawer o gamfanteisio ar blant yn rhywiol yn parhau i fod yn anweladwy mewn data gweinyddol am nad yw wedi'i gofnodi fel cam-drin plant yn rhywiol, ac felly mae'n dal yn amhosib gwybod beth yw'r raddfa.

² Mae troseddau sydd wedi'u cofnodi gan yr heddlu yn cynnwys troseddau nad ydynt wedi digwydd yn ddiweddar, yr amcangyfrifir bod tua 20% ohonynt yn droseddau rhywiol, er nad yw'n hysbys sut mae'r gyfran hon wedi newid.

Y bylchau

- Nid ydym yn gwybod a yw cam-drin plant yn rhywiol yn gostwng neu'n cynyddu, oherwydd:
 - Nid yw'n bosib pennu a yw'r cofnodion wedi cynyddu am fod rhagor o gam-drin 'cudd' yn dod i'r amlwg, neu am fod cynnydd gwirioneddol.
 - Mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol nad ydynt wedi digwydd yn ddiweddar yn cael eu cynnwys mewn data cyfiawnder troseddol.
- Nid yw proffiliau dioddefwyr a throseddwyr, ar wahân i rywedd, yn cael eu cofnodi'n gyson.
- Nid yw'r patrymau a'r cyd-destunau yng nghyswllt cam-drin – megis parhad ac amllder dros amser, a'r berthynas rhwng y dioddefwyr a'r troseddwyr – wedi cael eu sefydlu'n dda.
- Nid yw'r data o ran troseddwyr yn datgelu a oedden nhw wedi troseddu unwaith, fwy nag unwaith neu yn rheolaidd.
- Does dim astudiaethau o nifer yr achosion ar y boblogaeth yn gyffredinol wedi cael eu cynnal yng nghyswllt cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, a does dim modd gwahaniaethu rhwng y plant sydd mewn perygl a'r plant sydd wedi dioddef o gamfanteisio ar hyn o bryd o edrych ar ddata gweinyddol.
- Nid yw'r graddau y gellir ystyried 'ar-lein' yn gyd-destun ar gyfer cam-drin, a'r graddau y ceir ffurfiau penodol o gam-drin ar-lein wedi'u mapio'n fanwl eto.
- Nid yw'r data presennol yn gwahaniaethu rhwng y cam-drin sy'n cael ei riportio gan dioddefwyr neu eu cefnogwyr, a'r achosion o gam-drin sy'n cael eu nodi gan weithwyr proffesiynol/asiantaethau.

Yr her

Mae mesur cam-drin plant yn rhywiol yn broses gymhleth:

- Mae gwahanol ddulliau methodolegol (cwmpasu, samplu a fframio) mewn astudiaethau nifer yr achosion yn rhwystro cymariaethau.
- Mae llawer o astudiaethau yn rhai untro, ac felly mae'n amhosib canfod tueddiadau dros amser.
- Mae'r rhan fwyaf o'r achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn dal i fod yn gudd a does neb yn rhoi gwybod amdanynt i asiantaethau swyddogol a dydyn nhw ddim yn canfod yr achosion hyn chwaith.
- Mae llawer o oroeswyr yn rhoi gwybod pan fyddan nhw'n oedolion, a dydyn ni ddim yn gwybod a yw'r raddfa datgeliadau hon wedi newid dros amser.
- Nid yw'r data'n cael ei gasglu yn yr un modd ar draws asiantaethau gwahanol: mae'r heddlu'n casglu data am droseddau, mae Gwasanaeth Eryl y Goron a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn casglu data am ddiffynyddion, ac mae gwasanaethau plant yn casglu data ar blant.
- Mae'r hyn a gaiff ei gofnodi a'r hyn nad yw'n cael ei gofnodi'n adlewyrchu anghenion, dealltwriaeth a blaenoriaethau'r asiantaethau, sy'n amrywio.
- Effeithir ar yr achosion a ddaw i law'r asiantaethau gan ymwybyddiaeth gymdeithasol ehangach a gan flaenoriaethau'r heddlu.
- Mae diffiniadau'n newid gan ei gwneud hi'n anodd olrhain tueddiadau dros amser.

Y ddadl dros wella

Mae ein dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol wedi gwella, ond mae'r astudiaeth gwmpasu yn amlygu nad oes gennym ni ddarlun cynhwysfawr ac nad ydym yn gallu monitro newidiadau dros amser. Mae cael data gwell a chymharol yn gydrannau sy'n sail hanfodol yn y frwydr yn erbyn cam-drin plant yn rhywiol ac, yn bennaf, er mwyn helpu i amddiffyn plant.

- Gall data cynhwysfawr a chymharol hefyd lywio'r gwaith o ddatblygu dulliau i atal, ymyrryd a chanfod achosion o gam-drin.
- Gall dod o hyd i batrymau cam-drin sy'n newid, mewn perthynas â cham-drin ar-lein neu gyd-destunau eraill er enghraifft, helpu i sicrhau bod gan asiantaethau'r wybodaeth a'r adnoddau cywir.
- Gall gwybodaeth gadarn helpu i wneud penderfyniadau gwell ynglŷn â dyrannu adnoddau.
- Bydd data cywir yn gallu sicrhau asesiadau gwell o effeithiolrwydd newidiadau i bolisiau ac arferion.

Y camau nesaf ac argymhellion

Mae sicrhau data gwell a chymharol yn nod tymor hir; fodd bynnag, mae rhai camau pendant ar gyfer dechrau mynd i'r afael â'r bylchau a gwella'r sefyllfa bresennol.

1. Dylai Llywodraeth y DU ymrwymo i gomisiynu astudiaeth o nifer yr achosion, o dan law'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r astudiaethau presennol o nifer yr achosion wedi cyfrannu'n sylweddol i'n dealltwriaeth, ond mae'r adroddiad cwmpasu wedi dod o hyd i nifer o fylchau.

Cwmpas: Mae safbwyntiau gwahanol ynghylch a ddylai astudiaeth o'r fath gael ei chynnwys mewn arolwg ehangach (er enghraifft, mewn perthynas â cham-drin plant ac esgeulustod). Er ein bod ni'n gwerthfawrogi'r dadleuon o blaid cwmpas ehangach, rydyn ni'n credu bod achos cryf dros gael arolwg o nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol, os ydym ni am lwyddo i fynd i'r afael â'r bylchau yn y wybodaeth a nodwyd yn gynharach. Dylai'r astudiaeth fod yn gynhwysfawr ac yn well na mesuriadau nifer yr achosion blaenorol. Dylai gynnwys cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant; cam-drin ar-lein; parhad/amlder y cam-drin; a pherygl o gam-drin.

Sampl: Byddem yn cynnig hap-sampl o oedolion, a sampl atgyfnerthu o bobl ifanc er mwyn sicrhau'r wybodaeth agosaf am brofiadau presennol.

Amlder: Mae'n bwysig bod yr astudiaeth yn cael ei hailadrodd, er mwyn gallu cymharu dros amser. Cynigir bod yr astudiaeth yn cael ei chynnal bob degawd, a bydd cwestiynau'n cael eu gofyn yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn y blynyddoedd rhyngddynt. Mae'r amlder hwn yn adlewyrchu arferion yn UDA a byddai'n cyfyngu'r gost (amcangyfrifwyd bod y gost yn filiynau o bunnau) i unwaith bob 10 mlynedd yn unig.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ennill ei phlwy fel sefydliad ystadegol y DU, ac mae hi mewn sefyllfa dda i gynnal y gwaith hwn ac i gynnal ymrwymiad parhaus dros lawer o ddegawdau. Mae gan ei data hefyd statws ystadegol swyddogol.

- ***Bydd y Ganolfan yn cyfrannu at arbenigedd ac yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegol Gwladol i ddatblygu methodoleg ar gyfer yr arolwg.***

2. Dylai sefydliadau sy'n cynnal arolygon ac astudiaethau carfan hydredol ar faterion cysylltiedig ystyried cynnwys modiwl ar gam-drin plant yn rhywiol.

Cydnabyddir ei bod yn debygol bod achosion a allai gynnwys ystyriaeth o gam-drin plant yn rhywiol fel rhan o gwmpas ehangach, er enghraifft iechyd meddwl. Byddai cael cyfres o gwestiynau ynghylch cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd ar draws yr astudiaethau gwahanol hyn yn galluogi cymariaethau ac yn amhrisiadwy.

- ***Bydd y Ganolfan yn cynnull grŵp o arbenigwyr i ddatblygu set o gwestiynau craidd sy'n ymwneud ag arferion gorau ar gyfer model cam-drin plant yn rhywiol, gan ddefnyddio'r dysgu am fethodoleg a nodwyd yn yr adroddiad cwmpasu.***

3. Bydd y Ganolfan yn gweithio gydag asiantaethau perthnasol mewn ardaloedd lleol i wella'r broses o gofnodi'n gyson y data gweinyddol craidd sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.

Fel y nodwyd yn yr astudiaeth gwmpasu, mae gwendidau arwyddocaol yn y wybodaeth sylfaenol, gan gynnwys: gwybodaeth broffil graidd am ddiodefwr a throseddwr; cydestun a lleoliadau'r cam-drin; a gwahaniaethu rhwng y rhai sydd mewn perygl a'r rhai sydd wedi dioddef o gam-drin neu gamfanteisio rhywiol.

- ***Mae'r Ganolfan wedi cynhyrchu drafft o dempled casglu data er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r bylchau a'r heriau. Rydym yn chwilio am asiantaethau lleol i dreialu'r templed hwn, fel ei fod yn gallu cael ei brofi a'i wella, a bod ac i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r heriau a'r atebion sydd ynghlwm wrth wella'r broses o gasglu data.***

4. Bydd y Ganolfan yn gweithio gydag asiantaethau perthnasol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros amrywiadau lleol/rhanbarthol yn y cofnodion o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae'r dadansoddiad o ddata gweinyddol yn dangos amrywiadau rhanbarthol arwyddocaol yn y cofnodion o gam-drin plant yn rhywiol sydd wedi'u gwneud gan wasanaethau plant awdurdodau lleol a gan luoedd yr heddlu. Mae'n amhosib pennu ai gwahaniaethau o ran achosion ynteu o ran canfod a chofnodi sy'n gyfrifol am yr amrywiadau hyn. Mae hwn yn fwlch sylweddol yn y wybodaeth sydd ar gael, ac mae'n cynnwys goblygiadau i bolisiau ac arferion.

- ***Bydd y Ganolfan yn archwilio amrywiadau rhanbarthol yn fanylach, gan weithio mewn partneriaeth â'r asiantaethau lleol perthnasol gan gynnwys yr heddlu a gwasanaethau plant.***

Mae'r adroddiad cwmpasu llawn a'r graffigyn gwybodaeth ar gael ar ein gwefan:

www.csacentre.org.uk